**Clwstwr Teulu Llangynwyd**
**Polisi Addysg Cydberthynas a Rhywioldeb**

## Cyflwyniad

Defnyddir Cod Addysg Cydberthynas a Rhywioldeb Cwricwlwm i Gymru (Ionawr 2022) wrth gynllunio'r rhaglen addysg cydberthynas a rhywioldeb ar draws Clwstwr Teulu Llangynwyd. Mae'r Cod hwn yn cynnwys gofynion gorfodol, ac mae'r sail gyfreithiol ar gyfer y gofynion hyn i'w gweld yn y crynodeb deddfwriaethol yn y canllawiau fframwaith hyn ar y Cwricwlwm i Gymru. Mae hyn yn golygu bod yn rhaid i bob dysgwr gael yr addysg hon a nid oes hawl i dynnu plentyn allan o wersi addysg cydberthynas a rhywioldeb o Fedi 2022.

Y nod yw cynorthwyo disgyblion i feithrin y sgiliau a'r wybodaeth sy'n briodol hoedran a'u dealltwriaeth a'u galluogi i wneud penderfyniadau cyfrifol ynglŷn â'u perthnasoedd, emosiynau a iechyd a lles rhywiol. Bydd yr addysg cydberthynas a rhywioldeb yn ystyried amrywiaeth o ffactorau gan gynnwys gwybodaeth ac aeddfedrwydd y dysgwr, ei ddatblygiad ffisiolegol ac emosiynol yn ogystal ag unrhyw anghenion dysgu ychwanegol.

## Amcanion

Mae cynnwys y Cod Addysg Cydberthynas a Rhywioldeb yn seiliedig ar dri llinyn dysgu cysylltiedig bras; cydberthynas a hunaniaeth, iechyd rhywiol a lles, grymuso, diogelwch a pharch.

Drwy'r llinynnau yma rhoddir cyfle i ddysgwyr ymdrin â'r themâu:

- cydberthnasau
- hawliau a thegwch
- rhyw
- rhywedd a rhywioldeb
- cyrff a delwedd gorfforol
- iechyd rhywiol a lles
- trais
- diogelwch a chymorth

Ym mhob un o'r llinynnau dysgu, bydd cynnwys y cwricwlwm addysg cydberthynas a rhywioldeb yn gynhwysol ac yn adlewyrchu amrywiaeth. Defnyddir cynnwys gwaith dysgu sy'n datblygu ymwybyddiaeth a dealltwriaeth dysgwyr o wahanol hunaniaethau, safbwyntiau a gwerthoedd ac amrywiaeth o ran cydberthnasau, rhywedd a rhywioldeb, gan gynnwys bywydau LHDTC+.

**Addysgeg:**

Er mwyn sicrhau darpariaeth priodol ac effeithiol i bob dysgwr, byddwn yn;

- sicrhau amgylchedd cefnogol a ddiogel
- cefnogi trafodaethau agored ac anfeirniadol
- defnyddio geirfa gywir a phriodol
- cydnabod llais y disgybl wrth gynllunio Addysg Cydberthynas a Rhywioldeb
- cydweithio fel clwstwr er mwyn sicrhau'r addysgeg gorau posib

**Y Pedwar Diben**

Wrth i ni gynllunio i weithredu cwricwlwm i Gymru ar draws y clwstwr defnyddiwn bedwar diben dysgu fel rhan annatod o'n cynllunio a'n haddysgu. Bydd y sgiliau a'r wybodaeth y bydd ein disgyblion yn eu hennill ac yn eu dysgu drwy'r themâu Addysg Cydberthynas a Rhywioldeb yn datblygu pob agwedd ar y pedwar diben dysgu. Bydd ein nod, gan ddefnyddio Addysg Cydberthynas a Rhywioldeb, yn sicrhau ein bod yn datblygu dysgwyr galluog, annibynnol a hyderus sy'n ddinasyddion egwyddorol ac yn unigolion foesegol wybodus a iach.

Hoffwn gadarnhau i ddisgyblion a rhieni / gwarcheidwaid na fydd crefydd neu agweddau personol staff yr ysgol yn dylanwadu ar addysgeg Addysg Cydberthynas a Rhywioldeb. Gobeithir gall staff yr ysgol a rhieni / gwarcheidwaid cydweithio er mwyn sicrhau fod negeseuon cadarnhaol yn cael eu cyfleu i'n dysgwyr ynghylch Addysg Cydberthynas a Rhywioldeb wrth fod yn agored wrth ateb cwestiynau'r plant.

Anogwn rieni a warcheidwaid i gael deialog agored gyda'r ysgol a'r athro dosbarth ynglŷn â thestunau bydd yn cael eu trafod yn ystod gwersi Addysg Cydberthynas a Rhywioldeb fel y gallwn ateb unrhyw gwestiynau ac ymholiadau sydd gennych.